**Ein Cartref, Ein Cynefin**
**Lleoedd Lleol i Natur Cynllun Grantiau 25/26**

Mae gan Bartneriaeth Natur Ceredigion £100,000 o gyllid ar gyfer prosiectau er mwyn creu, adfer neu wella asedau naturiol, a hefyd i gyflwyno natur i bobl ar garreg eu drws, lle maent yn byw, yn gweithio ac yn cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Ariennir y cynllun gan gronfa Llywodraeth Cymru, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

Gwahoddir ceisiadau gan Grwpiau a gyfansoddwyd, Elusennau Cofrestredig, Cwmnïau, Busnesau Preifat a sefydliadau'r Sector Cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau er lles byd natur a chymunedau Ceredigion.

Dywedodd Rachel Auckland, Cydlynydd y Bartneriaeth Natur Leol: "*Mae'r cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn croesawu ceisiadau am brosiectau i greu, adfer neu wella natur, er budd bywyd gwyllt a chymunedau difreintiedig. Rydym eisiau cefnogi prosiectau a fydd yn dod â natur yn ôl i garreg drws pobl, lle maen nhw'n byw, yn gweithio ac yn cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Mae'r pwyslais ar grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a chymunedau difreintiedig, yn enwedig mewn ardaloedd heb fawr o fynediad at fyd natur.*
*Y grant mwyaf sydd ar gael yw £25,000 ond nid oes isafswm grant ac anogir grwpiau a phrosiectau llai i wneud cais. Bydd y cyllid hwn yn galluogi sefydliadau bywyd gwyllt a grwpiau cymunedol i wella lleoedd ar gyfer byd natur a phobol. Rydym yn gobeithio y bydd yn annog pobol i gyfranogi, i brofi a gwerthfawrogi natur heb wneud niwed i'r bywyd gwyllt sydd yno eisoes."*

Syniadau posib ar gyfer prosiectau:
1. pyllau dŵr ar gyfer bywyd gwyllt.
2. creu mannau gwyrdd ar strwythurau ac arwynebau artiffisial mewn ardaloedd trefol.
3. plannu coed, perllannau, coetiroedd neu berthi ger strydoedd.
4. torri porfa'n wahanol er budd bioamrywiaeth, neu greu dolydd blodeuog.
5. creu mannau tyfu bwyd/ rhandiroedd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt.

Rhaid i'r ymgeiswyr ddangos sut y byddant yn cynnal y prosiect am o leiaf pum mlynedd ar ôl diwedd y cyllid hwn. Gall y prosiectau gynnwys gwella mynediad i safleoedd sy'n bodoli eisoes neu rai newydd, fel y gall pawb eu mwynhau. Rhaid iddynt hefyd gynnwys gwelliannau bioamrywiaeth megis gosod blychau nythu ar gyfer adar neu ystlumod.

Dyfernir pwyntiau i brosiectau gan banel grantiau. Bydd prosiectau sy'n dod â mwy o fudd i fioamrywiaeth yn cael mwy o bwyntiau.

Dywedodd y Cynghorydd Eryl Evans, Hyrwyddwr Bioamrywiaeth Ceredigion*: "Ar ôl profi'n uniongyrchol ddylanwad y math hwn o gyllid, rwy'n gwybod pa mor bwerus y gall fod. Mae'n rhoi cyfle i egin syniad dyfu i fod yn rhywbeth sydd wir yn ystyrlon.*

*Gyda'r gefnogaeth gywir, gall mannau lleol ddod yn ganolfannau ffyniannus ar gyfer natur gan gefnogi bioamrywiaeth a chynnig manteision o ran iechyd meddwl a lles i bawb sy'n byw yn yr ardal neu'n ymweld â'r ardal. Dyma'r math o gyllid sy'n gallu helpu grwpiau lleol i gymryd y cam cyntaf pwysig hwnnw, ac rydw i wedi gweld pa mor drawsnewidiol y gall hynny fod."*

Ariennir y cynllun gan gronfa Llywodraeth Cymru, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

Gallwch ofyn am becyn ymgeisio drwy e-bostio bioamrywiaeth@ceredigion.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener, 19 Medi am 12 - hanner dydd.